



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

# **Afon Wysg Strategaeth Trwyddedu Tynnu Dŵr**

**Strategaeth drwyddedu i reoli adnoddau  
dŵr yn gynaliadwy**

**Gorffennaf 2017**

Cyhoeddwyd gan:  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Tŷ Cambria  
29 Heol Casnewydd  
Caerdydd  
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)  
[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

© Cyfoeth Naturiol Cymru.


Cedwir pob hawl. Cewch atgynhyrchu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan  
Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

**Map 1** Ardal Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Afon Wysg




**Ardal SRhTDD Afon Wysg**



**Allwedd**

- Pwyntiau Asesu (wedi'u rhifo)
- Prif gronfeydd dŵr
- Prif afonydd dalgylch Afon Wysg
- Ardaloedd SRhTDD o amgylch
- Ardal SRhTDD Afon Wysg

0 1.5 3 6 9 km



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2016

# Cynnwys

<b>1. YNGLŶN Â'R STRATEGAETH DRWYDDEDU HON.....</b>	<b>1</b>
1.1 Pryd mae angen trwydded tynnu dŵr? .....	1
1.2 Tynnu dŵr yn gynaliadwy.....	2
<b>2. ARDAL SRHTDD AFON WYSG .....</b>	<b>3</b>
2.1 Ardal y SRhTDD .....	3
2.2 Pwysau ar y prif adnoddau dŵr .....	3
2.3 Pwysigrwydd ecolegol .....	4
<b>3. FAINT O ADNODDAU DŴR SYDD AR GAEL YN ARDAL SRHTDD AFON WYSG .....</b>	<b>7</b>
3.1 Asesiad o adnoddau .....	7
3.2 Faint o adnoddau sydd ar gael .....	7
3.2.1 Dŵr wyneb .....	7
3.2.2 Dŵr daear .....	10
3.3 Pa mor ddibynadwy yw'r adnoddau .....	10
<b>4. SUT RYDYM YN RHEOLI TYNNU DŴR YN ARDAL .....</b>	<b>15</b>
4.1 Egwyddorion trwyddedu cenedlaethol .....	15
4.2 Polisi trwyddedu dŵr wyneb .....	17
4.2.1 Dalgylch Afon Wysg i fyny'r afon o'r terfyn llanwol yn Newbridge .....	19
4.2.2 Dalgylch Nant Malpas.....	19
4.2.3 Dalgylch Nant Sor.....	20
4.3 Polisi trwyddedu ynni dŵr .....	20
4.4 Polisi trwyddedu dŵr daear.....	21
4.5 Polisi trwyddedu aberoedd / ardaloedd arfordirol .....	22
4.6 Polisi trwyddedu cronni dŵr .....	24
4.7 Cyfleoedd i fasnachu trwyddedau.....	26
4.8 Adfer tynnu dŵr yn gynaliadwy .....	27
4.9 Dileu gweithgareddau wedi'u heithrio .....	28

4.10 Newidiadau i'r system drwyddedu bresennol yn y dyfodol.....	29
<b>RHESTR TERMAU .....</b>	<b>30</b>
<b>RHESTR O FYRFODDAU.....</b>	<b>33</b>

# 1. Ynglŷn â'r Strategaeth Drwyddedu hon

Dengys y **Strategaeth Drwyddedu** hon sut y rheolir adnoddau dŵr yn **nalgylch** Afon Wysg (Map 1). Mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch lle mae'r dŵr ar gael ar gyfer ei **dynnu** ac yn rhoi syniad o ba mor ddibynadwy y bydd **trwydded newydd i dynnu dŵr**. Mae hefyd yn amlinellu ein hegwyddorion trwyddedu cyffredinol.

Cyhoeddwyd y strategaeth hon ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'n disodli'r strategaeth a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2007 a diweddariad mis Rhagfyr 2010.

Rydym bellach yn asesu adnoddau dŵr ar lefel is-ddalgylch, a elwir yn **gyrff dŵr**, yn unol â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Golyga hyn y gallwn ddarparu gwybodaeth fanylach am faint o adnoddau dŵr sydd ar gael yn ardal Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Afon Wysg (SRhTDD) o gymharu â'r raddfa a ddefnyddiwyd yn y strategaeth flaenorol.

Lluniwyd y strategaeth drwyddedu hon yn dilyn canlyniad y broses Adolygu Cydsyniadau Cyfarwydddeb Cynefinoedd Ardal Cadwraeth Arbennig Afon Wysg.

## 1.1 Pryd mae angen trwydded tynnu dŵr?

Bydd angen trwydded gennym os ydych am dynnu mwy na 20 metr ciwbig (m<sup>3</sup>) (4,400 galwyn) o ddŵr y dydd o:

- afon neu nant
- cronfa ddŵr, llyn neu bwll
- camlas
- ffynnon neu
- ffynhonnell danddaearol

Byddwn yn penderfynu a fyddwn yn caniatáu trwydded ai peidio yn ôl faint o ddŵr sydd ar gael ar ôl diwallu anghenion yr amgylchedd a'r tynwyr dŵr presennol ac a yw'r cyfiawnhad dros dynnu dŵr yn rhesymol.

Os ydych am ymgeisio am drwydded tynnu dŵr neu am wneud newidiadau i drwydded sydd gennych eisoes yna cysylltwch ag:

Ymholiadau Cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru:

- ar y ffôn ar 0300 065 3000 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8am tan 6pm)
- trwy e-bost [enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)
- neu ewch i'r wefan [www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)

## 1.2 Tynnu dŵr yn gynaliadwy

Mae angen i ni sicrhau bod dŵr yn cael ei dynnu'n gynaliadwy ac nad yw tynnu dŵr yn difrodi'r amgylchedd. Trwy'r proses SRhTDD, rydym yn ystyried effaith tynnu dŵr ar bob llif, o lif isel i lif uchel. Mae hyn yn ein helpu i reoli tynnu dŵr yn y dyfodol yn fwy cynaliadwy ac yn ein galluogi i asesu cynaliadwyedd trwyddedau presennol.

Mae Afon Wysg a llawer o'i hisafonydd yn ddynodedig fel Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd (1992). O ganlyniad, mae'r cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bodoli yno wedi cael eu nodi i fod yn fwy gwerthfawr ac mae angen gwarchod y llif afon yn fwy cadarn na'r hyn a ddarperir gan y broses SRhTDD ar ei phen ei hun. Mae'r lefel hon o warchod wedi cael ei phennu trwy broses a adwaenir fel Adolygiad Cydsyniadau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (ACGC). Effeithir yn sylweddol ar gasgliadau ACGC ar gyfer Afon Wysg gan reolaeth adnoddau dŵr yn nalgylch Afon Wysg. Mae canlyniadau proses ACGC ar gyfer Afon Wysg wedi cael eu cyfuno ag egwyddorion SRhTDD er mwyn pennu'r strategaeth drwyddedu hon.

### **Sut mae SRhTDD yn cyfrannu at gyrraedd amcanion amgylcheddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Ddŵr**

Prif amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (GFD) yw amddiffyn a gwella amgylchedd y dŵr a sicrhau bod adnoddau dŵr yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy mewn datblygiadau economaidd a chymdeithasol.

Mae proses SRhTDD yn ymgorffori egwyddorion y GFD ac mae'n cyfrannu at amcanion y GFD trwy:

- ddarparu asesiad o adnoddau dŵr mewn afonydd, llynnoedd, cronfeydd dŵr, aberoedd a [dŵr daear](#), y cyfeirir atynt fel cyrff dŵr o dan y GFD;
- nodi cyrff dŵr a fydd yn methu oherwydd nad yw amodau eu llif yn gallu cynnal statws ecolegol da;
- atal dirywiad yn statws corff dŵr oherwydd tynnu dŵr o'r newydd;
- darparu canlyniadau sy'n llywio [Cynlluniau Rheoli Basn Afon](#) (CRhBA).

Gellir gweld gwybodaeth am Ardal Basn Afon Hafren (a arweinir gan Asiantaeth yr Amgylchedd), sy'n ymgorffori dalgylch Afon Wysg, ar dudalennau '[Gwella Ansawdd Dŵr](#)' gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae rhaniad dalgylch Afon Wysg i'w chyrrff dŵr unigol yn cael ei ddangos ar Fap 3.

Ceir manylion cefndir, nodau ac egwyddorion Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch, yr egwyddorion cyffredinol rydym yn eu defnyddio wrth reoli trwyddedau tynnu dŵr, a dolenni i fentrau eraill yn nogfen Asiantaeth yr Amgylchedd 'Rheoli Tynnu Dŵr'. Mae'n ddefnyddiol darllen 'Rheoli Tynnu Dŵr' wrth ddarllen strategaeth drwyddedu benodol y dalgylch hwn. Mae 'Rheoli Tynnu Dŵr' ar gael ar wefan [www.gov.uk/environment-agency](http://www.gov.uk/environment-agency) neu gellir gweld y ddogfen o'n tudalennau SRhTDD ar ein gwefan dan '[Gwefannau eraill](#)'.

## 2. Ardal SRhTDD Afon Wysg

### 2.1 Ardal y SRhTDD

Mae ardal SRhTDD Afon Wysg yn ymestyn o dirwedd fynyddig Bannau Brycheiniog yn y gogledd i'r iseldir amaethyddol yn y de. Mae'r dirwedd yn wledig yn bennaf. Mae'n cynnwys Afon Wysg a'i hisafonydd, ynghyd â Nant Sor a Nant Malpas, y mae'r ddwy ohonynt yn draenio'n uniongyrchol i aber Afon Wysg. Mae hefyd yn cynnwys traethlin isel gwastatir Cil-y-coed (Map 1). Mae'r dalgyllch yn hynod o werthfawr o ran ecoleg, amaethyddiaeth a gweithgareddau hamdden.

Mae Afon Wysg oddeutu 121km o hyd a maint y dalgyllch yw 1,169km<sup>2</sup>. Mae'r hinsawdd yn fwyn ac yn wlyb, gan dderbyn glawiad blynyddol cyfartalog o 1,700mm yn yr ucheldir a 1,100mm yn yr iseldir, o'i gymharu â 1,310mm ar gyfer Cymru gyfan. Mae llif rhan uchaf dalgyllch Afon Wysg yn codi'n sydyn, yn [fflachiog](#), oherwydd dŵr ffo cyflym ar ôl glawiad a achosir gan y dyffrynnoedd cul ag ochrau serth a'r priddoedd tenau sy'n gorwedd yn bennaf ar graig anhydraidd. Mae hyn yn achosi i'r gorlifdir is sy'n agos at aber yr afon orlifo yn ystod cyfnodau o law trwm. Mae rhannau isaf Afon Wysg yn dueddol o fod yn llai ymatebol i lawiad oherwydd y dalgyllch mwy a'r dirwedd isel, ac mae'n enghraifft brin o afon fawr mewn iseldir nad yw wedi cael ei haddasu'n sylweddol gan ddyn.

Mae'r dalgyllch ar greigiau cadarn sy'n amrywio mewn oedran o'r cyfnod Silwraidd i'r cyfnod Jwrasig cynnar (oddeutu 420 i 200 miliwn o flynyddoedd yn ôl). Mae'r rhain wedi cael eu gorchuddio'n lleol gan haen denau o ddyddodion Cwaternaidd anghyfunedig o'r Oes Iâ ddiwethaf a hefyd gwaddod a adawyd gan y system afonydd fodern (rhwng oddeutu 122,000 o flynyddoedd yn ôl hyd at y presennol). Y prif [ddyfrhaenau](#) yn ardal SRhTDD Afon Wysg yw'r Hen Dywodfaen Coch, Calchfaen Carbonifferaidd a deunyddiau llif sy'n brigo ar hyd gwaelodion dyffryn yr afon. Mae dŵr daear yn cyfrannu'n gymedrol at lifoedd yr afon, yn tarddu'n bennaf o'r Hen Dywodfaen Coch, y Gwelyau Glo, neu o'r tywod a'r graean ar hyd sianeli'r afon.

Mae dylanwadau artiffisial, yn arbennig cronfeydd dŵr yn y dalgyllch uwch a gwaith tynnu dŵr a [gollyngiadau](#) gan gwmnïau dŵr yn y dalgyllch is, yn effeithio ar [drefn llif](#) Afon Wysg.

### 2.2 Pwysau ar y prif adnoddau dŵr

[Dŵr wyneb](#) yw'r prif adnodd tynnu dŵr, gyda llai nag 1% o'r holl ddŵr sy'n cael ei awdurdodi i'w dynnu'n ddyddiol yn dod o ddyfrhaenau dŵr daear.

Y prif bwysau o ran tynnu dŵr yn dalgyllch Afon Wysg yw cyflenwad dŵr cyhoeddus. Mae'r gwaith tynnu dŵr i'r diben hwn yn cyfrif am oddeutu 94%<sup>1</sup> o'r holl ddŵr sy'n cael ei dynnu yn y dalgyllch mewn blwyddyn. Mae'r dalgyllch yn adnodd strategol allweddol ar gyfer cyflenwi dŵr yfadwy i lawer o dde-ddwyrain Cymru ac mae system helaeth o drosglwyddiadau dŵr wedi cael ei datblygu i ddosbarthu'r dŵr hwn ar draws y

---

<sup>1</sup> Mae'r data hwn yn cynnwys tynnu dŵr heb ei drwyddedu.

rhanbarth. Mae chwe [chronfa ddŵr](#) ar gyfer cyflenwad dŵr cyhoeddus yn y dalgylch. Mae'r rhain yn cynnwys cronfeydd dŵr Wysg a Chrai, sydd yn y blaenddyfroedd; cronfeydd dŵr Tal-y-bont ar Wysg (sydd wedi ei dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig SoDdGA) a Grwyne Fawr yng nghanol y dalgylch, Cronfa Ddŵr Llandegfedd (sydd wedi ei dynodi'n SoDdGA) ar ben Nant Sor, a Chronfa Ddŵr Pantyreos yn nalgylch Nant Malpas.

Mae llifoedd digolledu'n cael eu rhyddhau o gronfeydd dŵr Wysg, Crai, Tal-y-bont ar Wysg, Grwyne Fawr a Llandegfedd; mae'r rhain yn cynyddu llifoedd isel yn artiffisial uwchben yr hyn a fyddai'n digwydd yn naturiol. Caiff Cronfa Ddŵr Wysg ei defnyddio gan Dŵr Cymru Welsh Water fel cronfa 'rhoi a chymryd' ar adegau o lif isel; caiff dŵr ei ollwng o'r gronfa i'w dynnu yn is i lawr yn y dalgylch yn nhref Brynbuga. Mae presenoldeb y cronfeydd dŵr yn arwain at lai o amrywiad yn y llif i lawr yr afon gan effeithio ar raddfa llifoedd canolig ac is. Mae'r llifoedd hyn sy'n cael eu cynnal yn golygu bod gan Afon Wysg lifoedd 'isel' annaturiol o uchel a bod amgylchedd yr afon yn fwyaf bregus ar adeg llifoedd canolig.

Mae nifer fawr o drwyddedau amaethyddol o fewn y dalgylch, ond dim ond am ganran fach o'r holl ddŵr sy'n cael ei awdurdodi i'w dynnu mewn diwrnod y mae'r rhain yn cyfrif. Ynghyd â dibenion diwydiannol ac amwynder / amgylcheddol, mae amaethyddiaeth yn cyfrif am lai nac 1% o'r holl ddŵr sy'n cael ei awdurdodi i'w dynnu mewn blwyddyn. Mae nifer y trwyddedau cynhyrchu ynni dŵr wedi cynyddu'n raddol yn y dalgylch, ac ar hyn o bryd mae'n cyfrif am 6% o'r holl ddŵr sy'n cael ei awdurdodi i'w dynnu mewn blwyddyn.

Mae dŵr sylweddol yn cael ei dynnu yn y dalgylch hefyd ar gyfer cyflenwi dŵr i Gamlas Sir Fynwy a Brycheiniog yn Aberhonddu at ddibenion mordwyo. Mae'r gwaith hwn wedi'i eithrio rhag gorfod cael trwydded ar hyn o bryd. Rheolir y tynnu dŵr gan gytundeb gweithredu anffurfiol rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Glandŵr Cymru – yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru. Mae nifer o weithfeydd tynnu dŵr llai sydd wedi eu heithrio rhag gorfod cael trwydded yn cefnogi llif yn y gamlas. Mae dŵr wyneb sy'n trosglwyddo i'r gamlas yn cyfrif am 3%<sup>1</sup> o'r holl ddŵr sy'n cael ei dynnu o fewn ardal y SRhTDD.

Bydd gwaith tynnu dŵr presennol Glandŵr Cymru'n dod yn rhan o'r drefn trwyddedu tynnu dŵr yn y dyfodol agos dan y broses 'Awdurdodiadau Newydd', sy'n cynnwys cael gwared ar waith tynnu dŵr sydd wedi'i eithrio.

### 2.3 Pwysigrwydd ecolegol

Mae Afon Wysg a'i hisafonydd yn darparu coridor bywyd gwyllt pwysig, llwybr ymfudo hanfodol ac ardal fridio allweddol i lawer o rywogaethau o bwys cenedlaethol a rhyngwladol. Mae ei nodweddion yn amrywio'n eang o nant uwchdir gyda sail asidig i afon fawr mewn iseldir gyda chyrhaeddiad llanwol eang. Mae ei hamrywiaeth ecolegol yn gynnyrch ei daeareg, mathau o bridd, defnydd o dir cyfagos a hydroleg.

Mae dynodiad y brif afon, ei hisafonydd uwch a'i haber yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol yn cydnabod gwerth ecolegol Afon Wysg. Mae'r dynodiad ACA ar gyfer y cynefin mae'n



ei ddarparu ar gyfer y naw rhywogaeth ganlynol sydd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol, sy'n brin neu dan fygythiad mewn cyd-destun Ewropeaidd: eog yr lwerydd, penlletwad, herlyn, gwangen, lamprai'r nant, llysywen bendoll y môr, lamprai'r afon, dyfrgwn Ewropeaidd a chrafanc-y-frân y dŵr.

Mae Afon Wysg a'i hisafonydd hefyd yn cefnogi rhywogaethau [Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth](#) y DU (CGB), y mae llawer ohonynt mewn perygl o waith tynnu dŵr. Ymysg y rhywogaethau mae dyfrgwn, llygoden y dŵr, gwangen, herlyn, lamprai'r afon, cimwch-yr-afon crafanc wen, ystlumod a chennau gludiog yr afon, broga, llyffant dafadennog, madfall ddŵr balfog a madfall ddŵr gyffredin. Mae rhywogaethau eraill o fewn y system yn dibynnu ar ddyfroedd llonydd a chynefinoedd llaith / gwlyb ac maent yr un mor fregus i newidiadau mewn hydroleg a lefelau dŵr daear, fel glöyn byw brith y gors.

Mae pysgodfeydd eog a brithyll Afon Wysg o bwys cenedlaethol. Mae'r afon yn enwog trwy ei dalgylch cyfan fel pysgodfa brithyll ac mae'n debyg mai dyma'r bysgodfa afon orau yng Nghymru ar gyfer brithyllod gwyllt. Dyma'r bysgodfa eog bwysicaf yng Nghymru hefyd. Mae eogiaid wedi eu gwasgaru ar hyd yr afon gyfan. Maent yn dodwy wyau yn y rhan fwyaf o'r isafonydd ac yn y brif afon i lawr at dref Brynbuga. Mae llwybr bach ond arwyddocaol o frithyllod y môr yn Afon Wysg. Maent yn dueddol o ddodwy wyau yn ychydig o'r isafonydd, yn benodol Afon Hydfer ar frig y dalgylch, a Nant Sor a Nant Olwy ar ben isaf y dalgylch. Mae pysgodfa fras Afon Wysg o ansawdd is na physgodfeydd cyfagos yn Afon Gwy a rhannau isaf Afon Taf, neu'n debyg i'r pysgodfeydd hyn. Ymysg y rhywogaethau mae twb y dail, brwyniad, rhufell, llyfrothen dŵr croyw, a rhywfaint o ddraenogiaid dŵr croyw a barfogiaid. Mae nifer fawr o llysywod ifanc yn ymfudo i fyny'r afon gyda llanwau mawr.

Mae mwyafrif isafonydd Afon Wysg yn cefnogi cymunedau planhigion dŵr sy'n nodweddiadol o ddyfroedd sy'n gymharol gyfoethog o ran maetholion. Gellir dod o hyd i ardaloedd eang o gynefinoedd afonol lled naturiol ger yr isafonydd o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys coetir lled naturiol, glaswelltir sych a chorslyd, clystyrau o lystyfiant ffeniau a chorsydd, a glannau graean.

Mae pocedi da o gynefinoedd gwlyptir a rhywogaethau cysylltiedig yno, er gwaethaf colled sylweddol cynefin gwlyptir o ganlyniad i bwysau gwaith datblygu. Yn ogystal â'r afon a'i hisafonydd, mae mathau o gynefinoedd gwlyb yn cynnwys llynnoedd a chronfeydd dŵr, ffeniau, gwelyau brwyn, pyllau, porfa rhos, gorgors a chyforgors, coetir gwlyb a rhostir gwlyb.

Mae Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog hefyd yn adnodd bioamrywiaeth pwysig yn nalgylch Afon Wysg.


Mae Afon Wysg yn llifo i Aber Afon Wysg ac yna i Aber Afon Hafren, sy'n ddynodedig fel SoDdGA, yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, ac yn ACA. Caiff Aber Afon Hafren ei gynnwys ar y rhestr o wlypdiroedd o bwys cenedlaethol dan Gonfensiwn Ramsar (Safle Ramsar).

Dangosir y prif safleoedd dynodedig ar Fap 2.

**Map 2** Safleoedd dynodedig yn ardal SRhTDD Afon Wysg




Safleoedd Dynodedig  
Ardal SRhTDD Afon Wysg



**Allwedd**

- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
- Safleoedd Ramsar
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

- Prif afonydd dalgyloch Afon Wysg
- Prif gronfeydd dŵr
- Ardal SRhTDD Afon Wysg



© Hawffraint y Goron. Cedwir pob hawl.  
Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2016

## 3. Faint o Adnoddau Dŵr sydd ar gael yn Ardal SRhTDD Afon Wysg

### 3.1 Asesiad o adnoddau

**Drwy weld faint o ddŵr sydd eisoes wedi'i drwyddedu i'w dynnu, a faint o ddŵr sydd ei angen ar yr amgylchedd, gallwn benderfynu faint rhagor o ddŵr all fod ar gael i'w dynnu.**

Mae asesu adnoddau wrth wraidd rheoli tynnu dŵr. Mae gennym rwydwaith monitro i fesur llifoedd afonydd a lefelau dŵr daear. Rydym yn defnyddio'r data hwn, ynghyd â'n gwybodaeth o ddylanwadau pobl ac anghenion amgylcheddol, i sefydlu llinell sylfaen o faint o ddŵr sydd ar gael ar gyfer pob corff dŵr, i lunio darlun o'r dalgylch. Y prif gydrannau yn yr asesiad hwn sy'n ein helpu i ddeall faint o adnoddau dŵr sydd ar gael yw:

- llif afon – wedi'i fesur mewn gorsafoedd mesur;
- lefelau dŵr daear – wedi'u mesur mewn gorsafoedd monitro tyllau turio;
- symiau tynnu dŵr trwyddedig – faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu yn unol â'r amodau ar y trwyddedau, a elwir yn senario Trwyddedig Llawn y SRhTDD;
- union symiau o ddŵr a dynnwyd – faint o ddŵr sydd wedi'i dynnu mewn gwirionedd ar gyfartaledd dros y chwe blynedd flaenorol, a elwir yn senario Diweddar Gwirioneddol y SRhTDD;
- gollyngiadau a ganiateir – dŵr wedi'i ddychwelyd i afonydd, nentydd a dŵr daear;
- dyraniad o adnoddau dŵr i'r amgylchedd, a ddiffinnir fel cyfran o'r [llif naturiol](#) ac a elwir yn [Ddangosydd Llif Amgylcheddol](#) (DLA).

O ganlyniad i ddynodiad Afon Wysg fel ACA, mae'r DLA ar gyfer prif Afon Wysg a'i hisafonydd i fyny'r llif o'r terfyn llanwol wedi cael dynodiad uwch o warchodaeth amgylcheddol, sy'n addas ar gyfer rhywogaethau ACA a'u cynefinoedd. Tra bod gan ddalgylchoedd nentydd Sor a Malpas DLA SRhTDD a bennir ar gyfer afonydd nad ydynt yn ddynodedig.

### 3.2 Faint o adnoddau sydd ar gael

Penderfynir ar faint o ddŵr sydd ar gael ar gyfer ei dynnu gan y berthynas rhwng senario Trwyddedig Llawn y SRhTDD a senario Diweddar Gwirioneddol y SRhTDD o gymharu ag anghenion yr amgylchedd fel y'u diffinnir gan y Dangosydd Llif Amgylcheddol, ac a oes ddiffyg, neu berygl o ddiffyg, yn y llif amgylcheddol.

#### 3.2.1 Dŵr wyneb

Er mwyn dangos yr adnoddau sydd ar gael mewn dalgylchoedd, rydym yn defnyddio system ddsbarthu sy'n cael ei dangos mewn lliwiau sy'n dangos:

- y cydbwysedd cymharol rhwng gofynion yr amgylchedd am ddŵr a faint sy'n cael ei drwyddedu i'w dynnu;

- a oes rhagor o ddŵr ar gael y gellir ei dynnu;
- ardaloedd lle y gallai fod angen tynnu llai o ddŵr.

Mae llifoedd afonydd yn newid yn naturiol drwy'r flwyddyn, felly mae angen i ni amddiffyn amrywiaeth llif ein hafonydd, o lif isel i lif uchel. Rydym yn defnyddio ystadegau llif i'n helpu i wneud hyn. Mae ystadegau llif yn cael eu mynegi fel canran o'r amser pan ddisgwylir mwy na hynny o lif. Mae faint o adnoddau sydd ar gael yn cael ei gyfrifo ar bedwar gwahanol lif, Q95 (yr isaf), Q70, Q50 a Q30 (yr uchaf), ar bwyntiau ar hyd y rhwydwaith afonydd. Gelwir y rhain yn [Bwyntiau Asesu](#) y SRhTDD ac fe'u dangosir ar Fap 1. Mae llif isel Q95 yn dangos amodau sych, heb fawr ddim glaw, ac mae Q30 yn dangos amodau llif canolig. Mae 18 o bwyntiau asesu yn ardal SRhTDD Afon Wysg. Amcangyfrifir faint o ddŵr sydd ar gael ar lefel is-ddalgylch cyrff dŵr drwy ryngosodiadau syml rhwng pwyntiau asesu'r SRhTDD.

Eglurir lliwiau a goblygiadau trwyddedu'r adnoddau dŵr sydd ar gael yn ardal SRhTDD Afon Wysg yn Nhabl 1. Dangosir faint o ddŵr sydd ar gael ar raddfa'r corff dŵr ym mapiau 3 a 4.

Ar ôl y broses ACGC, mae faint o ddŵr sydd ar gael i fyny'r afon o'r terfyn llanwol yn nalgyrch Afon Wysg yn gyfyngedig iawn. Rydym wedi adfer dŵr a awdurdodwyd i'w dynnu gan nifer o drwyddedau yn y dalgyrch ar gyfer amgylchedd afonol yr ACA ac mae'r dŵr hwn yn cael ei warchod yn awr rhag cael ei drwyddedu at ddibenion tynnu dŵr yn y dyfodol. Golyga hyn na fydd dŵr ond ar gael ar lifoedd uchel ar gyfer [tynnu dŵr heb ei ddychwelyd](#) (Map 4).

Dengys ein Hadolygiad o Gydsyniadau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac asesiadau'r SRhTDD hefyd fod llifoedd islaw cronfeydd dŵr Wysg a Thal-y-bont ar Wysg yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan bresenoldeb y cronfeydd, er bod gan y ddwy gronfa lifoedd digolledu i liniaru presenoldeb y cronfeydd. Pan fydd y llif yn isel, mae'r llifoedd digolledu'n codi llifoedd uwchben yr hyn sy'n naturiol ond, ar bob adeg arall, mae llifoedd yn llai na'r hyn a fyddai'n digwydd yn naturiol yn y cyrsiau dŵr islaw'r cronfeydd. Mae addasiadau i'r llifoedd sy'n cael eu gollwng o gronfeydd dŵr Wysg a Thal-y-bont ar Wysg yn cael eu rheoli trwy ganlyniadau'r ACGC a phrosiectau'r GFD. Fodd bynnag, mae'r rhan o Afon Wysg islaw Cronfa Ddŵr Wysg a Nant Caerfanell islaw Cronfa Ddŵr Tal-y-bont ar Wysg bellach ar gau i unrhyw dynnu dŵr heb ei ddychwelyd (Mapiau 3 a 4).

<b>Lliw yn dangos faint o adnoddau dŵr sydd ar gael</b>	<b>Goblygiadau o ran trwyddedu yn ardal SRhTDD Afon Wysg</b>
<b>Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu</b>	Ar y llifoedd hyn a ddangosir ar Fap 3 a 4, mae mwy o ddŵr nag sydd ei angen i ddiwallu anghenion yr amgylchedd. Ystyrir trwyddedau o'r newydd yn dibynnu ar yr effeithiau lleol ac i lawr yr afon (gweler Adran 4.2).

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gellir cyflwyno trwyddedau tynnu dŵr heb ei ddychwelyd ond bydd amodau'n cyfyngu ar y tynnu dŵr, a</li> <li>• Gellir cyflwyno trwyddedau <b>tynnu dŵr at ddibenion dros dro</b> ond bydd cyfyngiadau llif lleol yn cael eu gosod arnynt.</li> </ul>
<p>Cyfyngiad ar y dŵr sydd ar gael ar gyfer trwyddedu</p>	<p>Ar y llifoedd hyn a ddangosir ar Fap 3 a 4, mae cymaint o ddŵr wedi'i drwyddedu nes bod hynny'n amharu ar faint o ddŵr sydd ar gael ar gyfer yr amgylchedd. Os caiff yr holl ddŵr sydd wedi'i drwyddedu ei dynnu, ni fydd digon o ddŵr ar ôl ar gyfer yr amgylchedd. Golyga hyn, ar y llif sy'n cael ei ddangos ar Fap 3 a 4:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Na fydd rhagor o drwyddedau tynnu dŵr heb ei ddychwelyd yn cael eu cyflwyno.</li> <li>• Gellir cyflwyno trwyddedau tynnu dŵr at ddibenion dros dro ond bydd cyfyngiadau llif lleol yn cael eu gosod arnynt.</li> </ul> <p>Yn y sefyllfa hon, efallai y bydd dŵr ar gael os gallwch 'brynu' hawliau i dynnu dŵr oddi wrth ddeiliad trwydded presennol (a elwir yn masnachu trwyddedau – gweler Adran 4.7).</p> <p>Rydym yn rheoli'r risg hon o ddiffyg amgylcheddol dan Raglen Adfer Tynnu Dŵr yn Gynaliadwy (gweler Adran 4.8).</p>
<p>Dim dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu</p>	<p>Ar y llifoedd hyn a ddangosir ar Fap 3 a 4, mae faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu a / neu bresenoldeb cronfa ddŵr yn peryglu anghenion llif yr ecoleg afonol. Mae llifoedd y cyrff dŵr yn is na'r gofyniad llif dangosol i helpu i gefnogi'r GFD a / neu amcanion ecolegol y Gyfarwydddeb Cynefinoedd. Golyga hyn, ar y llif sy'n cael ei ddangos ar Fap 3 a 4:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Na fydd rhagor o drwyddedau tynnu dŵr heb ei ddychwelyd yn cael eu cyflwyno.</li> <li>• Gellir cyflwyno trwyddedau tynnu dŵr at ddibenion dros dro ond bydd cyfyngiadau llif lleol yn cael eu gosod arnynt.</li> </ul> <p>Yn y sefyllfa hon, efallai y bydd dŵr ar gael os gallwch 'brynu' (sy'n cael ei alw'n masnachu trwyddedau) swm cyfwerth â'r hyn a dynnwyd yn ddiweddar oddi wrth ddeiliad trwydded presennol.</p> <p>Rydym yn rhoi sylw i / rheoli'r diffygion amgylcheddol hyn dan y Rhaglen Adfer Tynnu Dŵr yn Gynaliadwy (gweler Adran 4.8).</p>

**Tabl 1:** Goblygiadau'r lliwiau'n dangos faint o adnoddau dŵr wyneb sydd ar gael

### 3.2.2 Dŵr daear

Mae angen asesu faint o ddŵr daear sydd ar gael ar sail achos unigol pan dderbynnir cais am drwydded i dynnu dŵr daear. Mae natur wahanol y dyfrhaenau ar draws yr ardal, o galchfeini toredig i gerrig llaid a dyddodion drifft, yn golygu y bydd faint o ddŵr sydd ar gael i'w dynnu o'r strata yn naturiol yn amrywiol iawn.

Ar draws y dalgylch, mae gwybodaeth gyfyngedig ynglŷn â graddau'r cysylltiad rhwng y cyrsiau dŵr a'r dŵr daear rhanbarthol. Tybir bod dŵr daear yn rhanbarthol yn gollwng i'r nentydd ac afonydd o fewn y dalgylch (gan adlewyrchu'r topograffi), gan ddarparu [llif sylfaenol](#) i'r cyrsiau dŵr. Fodd bynnag, mae'r creigiau yn y dalgylch yn dangos sawl cam o anffurfiad tectonig, codiad ac erydiad, sydd wedi arwain at blygiannau ac ymdorri strwythurol. Mae'r nodweddion strwythurol hyn yn debygol o ddylanwadu ar lif y dŵr daear oddi mewn iddynt.

Byddai tynnu dŵr daear o ddyddodion sy'n bresennol ar hyd lloriau'r dyffryn yn debygol o gael effaith uniongyrchol ar gyrsiau dŵr ac felly'n amodol ar yr un amodau trwyddedu â dŵr wyneb. Yn yr achos hwn, byddai faint o adnoddau dŵr daear sydd ar gael yn cael eu cynrychioli gan liwiau faint o adnoddau dŵr wyneb sydd ar gael (Map 3).

Yr unig brif ddyfrhaen yn yr ardal yw'r Calchfaen Carbonifferaidd, ond mae cerrig brig yn gyfyngedig i'r ffin ddwyreiniol o amgylch Llangynidr, Llangadog a Llanofar (i'r de o'r Fenni) ac i'r de o gwmpas Cas-gwent. Mae'r creigiau hyn yn gallu cynnal tynnu dŵr ar raddfa fawr ar gyfer cyflenwad dŵr masnachol a chyhoeddus ac, mewn mannau, gallant gyflenwi llif sylfaen sylweddol i gyrsiau dŵr lleol. Ar draws gweddill ardal SRhTDD Afon Wysg, mae'r creigiau'n cael eu dosbarthu fel dyfrhaenau eilaidd yn ogystal â'r dyddodion drifft sydd wedi'u lleoli ar hyd lloriau'r dyffrynnoedd. Mae'r creigiau hyn yn cynnwys haenau athraidd sydd yn gyffredinol yn gallu cynnal cyflenwadau dŵr ar raddfa leol yn hytrach na strategol ac, mewn rhai achosion, yn gallu llunio ffynhonnell bwysig o lif sylfaenol i afonydd. Mewn mannau, gall y creigiau hyn gynnal tynnu dŵr masnachol ar raddfa fwy a chyflenwad dŵr cyhoeddus.

Ar raddfa leol, mae'r rhyngweithio rhwng dŵr daear a dŵr wyneb yn debygol o fod yn gymhleth ac yn ddibynnol ar lefel y dŵr daear, cam yr afon, pa mor athraidd yw gwelyau dyddodion yr afon, a phriodweddau'r dyfrhaenau.

### 3.3 Pa mor ddibynadwy yw'r adnoddau

Pan fyddwn yn cyflwyno trwydded, ni fyddwn yn gwarantu y bydd digon o ddŵr ar gael i'w dynnu, h.y. dibynadwyedd y cyflenwad dŵr. Dibynadwyedd yw'r cyfnod y bydd deiliad trwydded yn gallu tynnu dŵr ac mae'n cael ei gyfyngu gan yr amodau a ychwanegwyd at y drwydded ac ar faint o adnoddau sydd ar gael. Os ydych am wneud cais am drwydded, mae'n werth cofio efallai na fydd trwydded newydd yn hollol ddibynadwy oherwydd gallai amodau tynnu dŵr megis a fod arni. Mae gwybodaeth am ddibynadwyedd tynnu dŵr yn seiliedig ar y lliwiau yn y SRhTDD sy'n dangos faint o ddŵr sydd ar gael, ac mae'n ffordd o gyflwyno dibynadwyedd achosion newydd o dynnu dŵr heb ei ddychwelyd.

Mae Map 5 yn dangos pa mor ddibynadwy yw'r adnoddau dŵr yn ardal SRhTDD Afon Wysg, gan fynegi hyn fel canran o amser. Mae'n dangos lle y gallai'r cyflenwad dŵr fod yn fwy dibynadwy ac felly ar gael am gyfnodau hwy yn y flwyddyn nag mewn mannau eraill.

Yn seiliedig ar y senario drwyddedu bresennol (senario Trwyddedig Llawn y SRhTDD) a'r angen am lefel uchel o warchodaeth amgylcheddol ar rywogaethau ACA Afon Wysg a'u cynefinoedd, gellid cyfyngu ar drwydded newydd i dynnu dŵr heb ei ddychwelyd o ddalgylch Afon Wysg, i fyny'r afon o'r terfyn llanwol, am hyd at 314 diwrnod (86% o'r amser) mewn blwyddyn gyffredin.

Golyga hyn mai dim ond ar lifau afon uchel iawn y mae dŵr ar gael i'w dynnu heb ei ddychwelyd ac efallai mai dim ond am 51 diwrnod yn y flwyddyn y byddai dŵr ar gael i'w dynnu. Mae'n bur debyg mai yn ystod misoedd y gaeaf y bydd y dŵr hwn ar gael. Os ceir gaeaf sych gyda glawiad isel, yna gallai nifer y diwrnodau y gallwch dynnu dŵr fod yn llai na 51 diwrnod.

Mae faint o ddŵr sydd ar gael o fewn dalgyllch Nant Malpas yn gyfyngedig hefyd oherwydd faint o ddŵr sydd eisoes wedi'i drwyddedu i'w dynnu yn y dalgyllch hwn. Gellid cyfyngu ar drwydded o'r newydd i dynnu dŵr heb ei ddychwelyd am hyd at 266 diwrnod (73% o'r amser) mewn blwyddyn arferol a hyd at 313 diwrnod (86% o'r amser) mewn blwyddyn sych. Mae tynnu dŵr yn fwyaf tebygol o fod yn destun cyfyngiadau o'r gwanwyn tan yr hydref gan mai dyma'r cyfnodau pan welir llai o lif mewn afonydd, sy'n sbarduno'r cyfyngiadau ar dynnu dŵr.

Gellid cyfyngu ar drwydded o'r newydd i dynnu dŵr o ddalgylch Nant Sor heb ei ddychwelyd am hyd at 18 diwrnod (5% o'r amser) mewn blwyddyn arferol a hyd at 93 diwrnod (25% o'r amser) mewn blwyddyn sych.

Gan mai dim ond canolig yw cydran llif sylfaenol dŵr daear yn y cyrsiau dŵr wyneb yn y dalgyllchoedd hyn, mae llifoedd afonydd yn ymateb i ddigwyddiadau glawiad gan gynnwys diffyg glaw.





Nid yw'r ffigurau dangosol uchod yn berthnasol i dynnu dŵr at ddibenion dros dro (dŵr wyneb a dŵr daear) neu dynnu dŵr heb ei ddychwelyd os asesir nad yw'n cael effaith negyddol ar rywogaethau a / neu gynefinoedd dynodedig a lleol neu ddefnyddwyr dŵr eraill presennol. Yn yr achosion hyn, bydd cyfyngiadau ar geisiadau i dynnu dŵr yn cael eu hasesu ar sail achos unigol a bydd dibynadwyedd adnoddau yn cael ei drafod â chi pan fyddwch yn cyflwyno cais.

Mae'r ffigurau dibynadwyedd hyn yn ddangosol ac nid ydynt yn ystyried cyfnodau o sychder pan fydd nifer y diwrnodau na fydd yn bosibl i dynnu dŵr yn fwy.

**Nod yr adran hon yw pwysleisio na fydd tynnu dŵr ar gael am gyfran sylweddol o'r flwyddyn ar draws y rhan fwyaf o ddalgylch Afon Wysg. Felly er mwyn sicrhau bod gennych ffynhonnell ddibynadwy o ddŵr ar gyfer eich anghenion trwy gydol y flwyddyn, efallai y bydd angen i chi ystyried darpariaethau ychwanegol fel storio.**

**Map 3** Lliwiau yn dangos faint o adnoddau dŵr sydd ar gael yn ardal SRhTDD Afon Wysg

Adnoddau dŵr ar gael yn ardal  
SRhTDD Afon Wysg



**Allwedd**

- Dŵr nad yw ar gael i'w drwyddedu
- Cyfyngiad ar y dŵr sydd ar gael i'w drwyddedu
- Dŵr ar gael i'w drwyddedu
- Aber Afon Wysg ac ardal arfordirol

- Cyrff dŵr Afon Wysg
- Prif afonydd dalgylch Afon Wysg

0 3.75 7.5 15 22.5 30 km




© Hawffraint y Goron. Cedwir pob hawl.  
Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2016



**Map 4** Lliwiau yn dangos faint o adnoddau dŵr sydd ar gael yn ardal SRhTDD Afon Wysg ar Q14



Adnoddau dŵr ar gael yn  
ardal SRhTDD Afon Wysg (Q14)



**Allwedd**

- Dŵr ar gael i'w drwyddedu
- Dŵr nad yw gael i'w drwyddedu
- Aber Afon Wysg ac ardal arfordirol
- Prif afonydd dalgylch Afon Wysg
- Cyrff dŵr Afon Wysg

0 1.753.5 7 10.5 14 km




© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.  
Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2016

**Map 5** Lliwiau yn dangos dibynadwyedd adnoddau dŵr yn ardal SRhTDD Afon Wysg










**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru  
Natural  
Resources  
Wales**

Dibynadwyedd adnoddau ardal  
SRhTDD Afon Wysg (% o'r amser)



**Allwedd**

-  Adnoddau dŵr ar gael o leiaf 95%
-  Adnoddau dŵr ar gael o leiaf 70%
-  Adnoddau dŵr ar gael o leiaf 50%
-  Adnoddau dŵr ar gael o leiaf 30%
-  Adnoddau dŵr ar gael am lai na 30%

-  Prif afonydd dalgylch Afon Wysg
-  Cyrff dŵr Afon Wysg

0 1.5 3 6 9 12 km



© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl.  
Cyfoeth Naturiol Cymru, 100019741, 2016

## 4. Sut rydym yn rheoli tynnu dŵr yn ardal SRhTDD Afon Wysg

### 4.1 Egwyddorion trwyddedu cenedlaethol

Os ydych eisiau tynnu dŵr yn ardal SRhTDD Afon Wysg, mae'r adran hon yn amlinellu'r egwyddorion y byddwn yn eu dilyn wrth asesu eich cais am drwydded.

Ceir gwybodaeth bellach ar ein gwefan yma:

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Trwyddedu tynnu a chronni dŵr](#)

#### Y broses ymgeisio am drwydded tynnu dŵr

Mae'n rhaid i unrhyw un sydd eisiau tynnu mwy na 20m<sup>3</sup> o ddŵr y dydd (4,400 galwyn) o 'ffynhonnell gyflenwi' (afon, nant, llyn, ffynnon, dŵr daear ac ati) gael trwydded tynnu dŵr. Mae'r broses ymgeisio yn debyg i'r broses gynllunio o ran efallai y byddwn yn gofyn am hysbysebu'r cais ac efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth amgylcheddol i'w gefnogi. Mae pob cais am drwydded tynnu dŵr yn cael ei asesu er mwyn ystyried unrhyw broblemau yn lleol ac i lawr yr afon. Wrth ystyried cais, rydym yn gwirio bod y symiau o ddŵr sydd yn y cais a diben(ion) y tynnu dŵr yn rhesymol, bod digon o adnoddau dŵr ar gael i'w gynnal, a bod yr effeithiau y gallai eu cael ar yr amgylchedd ac ar ddefnyddwyr dŵr eraill yn dderbyniol.

#### Ymholiad cyn ymgeisio

Rydym yn cynnig cyngor cyn ymgeisio cyn cyflwyno cais ffurfiol. Mae hyn yn rhoi syniad da i ni am y cynnig cyn i gais ffurfiol gael ei gyflwyno. Mantais cwblhau ymholiad cyn ymgeisio cyn cyflwyno cais ffurfiol yw y byddwn yn gallu ymgynghori ar gynnig yr ymgeisydd a dangos i'r ymgeisydd pa mor llwyddiannus mae'r cais yn debygol o fod. Gallwn hysbysu'r ymgeisydd am unrhyw rwystrau posibl i gynnydd neu arolygon y byddai eu hangen i gefnogi cais ffurfiol ynghyd â gwybodaeth arall ddefnyddiol ynglŷn â chostau / gofynion hysbysebu ac amserlenni.

#### Bydd pob cais yn cael ei benderfynu'n unigol

Er y gall y ddogfen hon ddangos bod rhywfaint o ddŵr ar gael ar gyfer rhagor o dynnu dŵr, nid yw'n gwarantu y bydd pob cais ffurfiol yn llwyddiannus. Byddwn yn penderfynu ar bob cais yn unigol, ar ôl ystyried unrhyw effeithiau lleol. Mewn rhai achosion, efallai y bydd rhaid i ni wrthod y cais. Mae gan unrhyw ymgeisydd sy'n anfodlon â'n penderfyniad hawl i apelio yn ei erbyn.

#### Nid yw trwydded yn gwarantu bod dŵr ar gael

Mae'n bwysig deall na fyddwn yn gwarantu bod cyflenwad o ddŵr ar gael pan fyddwn yn cyflwyno trwydded. Mae'n rhaid i ni hefyd ddiogelu'r amgylchedd a hawliau tynwyr dŵr eraill. Er mwyn gwneud hyn, efallai y byddwn yn gosod cyfyngiadau ar drwyddedau a fydd yn golygu y bydd yn rhaid atal tynnu dŵr pan fydd y llif yn yr afon neu lefelau dŵr daear yn is na lefel benodol. Mae angen i ddeiliaid trwyddedau ddeall goblygiadau hyn gan y gallant effeithio ar ba mor ddibynadwy yw'r cyflenwad. Er enghraifft, mewn blynyddoedd sychach, mae'n fwy tebyg y daw amodau llif lle na ellir tynnu dŵr i rym ac y bydd yn rhaid atal tynnu dŵr.

## **Mae tynnu dŵr yn cael ei reoli i warchod yr amgylchedd ac amcanion y GFD**

Rydym yn asesu effeithiau ceisiadau newydd ar gyfer dŵr i sicrhau y bydd y dŵr a fydd yn dal i lifo yn yr afon yn:

- cynnal ecoleg dda neu, os nad yw'r ecoleg yn dda, na fydd yn dirywio ecoleg y corff dŵr ymhellach;
- cynnal cyflwr cyrff dŵr sydd bron yn berffaith cyrff dŵr â statws ecolegol uchel.

Er mwyn gwneud hyn, efallai y bydd amodau ar y drwydded y byddwn yn ei chyflwyno – gweler amod [llif lle na ellir tynnu dŵr](#) ac amod [lefel lle na ellir tynnu dŵr](#) isod.

Os oes angen, byddwn hefyd yn gweithredu i gyfyngu ar y cynnydd yn faint o ddŵr y gellir ei dynnu os byddwn o'r farn y gallai hyn ddirywio ecoleg neu gyflwr bron yn berffaith ein cyrff dŵr sy'n rhan o'n trefn hydrolegol uchel, fel rhan o'n Rhaglen Adfer Tynnu Dŵr yn Gynaliadwy (gweler adran 4.8).

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i'r corff dŵr y tynnir dŵr ohono a hefyd i bob corff dŵr i lawr yr afon a allai gael ei effeithio gan unrhyw ostyngiad mewn llif oherwydd tynnu dŵr. Drwy wneud hyn, byddwn yn gallu cynnal statws cyrff dŵr, fel yr adroddir yng Nghynlluniau Rheoli Basn Afon 2015, ac yn sicrhau y cydymffurfir â'r GFD.

### **Amodau llif lle na ellir tynnu dŵr**

Er mwyn amddiffyn yr amgylchedd, efallai y byddwn yn cynnwys amod a elwir yn 'llif lle na ellir tynnu dŵr' ar drwyddedau. Mae hwn yn datgan, os bydd llif yr afon yn mynd yn is na'r hyn sydd ei angen i warchod yr amgylchedd, y bydd yn rhaid atal tynnu dŵr.

### **Amodau lefel lle na ellir tynnu dŵr**

Pan fydd tynnu dŵr daear yn debygol o amharu ar nodweddion dŵr wyneb, neu'n lleihau'r llif sylfaenol i afon, efallai y bydd amod lefel lle na ellir tynnu dŵr yn cael ei osod ar y drwydded. Os cyrhaeddir y lefel dŵr daear hwn, bydd gofyn lleihau neu beidio â thynnu dŵr.

### **Trwyddedau cyfnod penodol**

Ers 2001, er mwyn cydnabod y pwysau newidiol ar adnoddau dŵr, trwyddedau am gyfnod penodol yn unig yw pob trwydded newydd neu amrywiad ar drwydded (heblaw am amrywiadau i leihau neu fân newidiadau na fydd yn cael unrhyw effaith ar yr amgylchedd). Mae hyn yn golygu y gellir adolygu'r trwyddedau hyn yn gyfnodol ac y gellir hefyd newid amodau'r trwyddedau pan fydd amgylchiadau wedi newid ers cyflwyno'r drwydded.

Daw pob trwydded cyfnod penodol mewn ardal SRhTDD i ben ar yr un dyddiad (y terfyn amser cyffredin) fel y gellir eu hadolygu'r un pryd. Pan geir cais am drwydded o fewn chwe blynedd o'r terfyn amser cyffredin, byddwn fel arfer yn gosod y terfyn amser cyffredin nesaf ar unrhyw drwydded a gyflwynir. Mae hyn rhag cael trwyddedau am gyfnodau cynyddol fyr wrth i'r terfyn amser cyffredin agosáu. Golyga hyn y gall y terfyn amser cyffredin dechreuol ar drwydded fod rhwng chwech a 18 mlynedd. Pan gyflwynir trwydded arall yn lle un bresennol, bydd fel arfer am gyfnod o 12 mlynedd.

Pan fyddwn yn ansicr ynghylch effeithiau amgylcheddol tymor hir tynnu dŵr, byddwn yn caniatáu trwydded tymor byr a byddwn yn monitro'r effeithiau a allai godi yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae oddeutu 19% o drwyddedau tynnu dŵr yn ardal SRhTDD Afon Wysg am gyfnod penodol.

Y terfyn amser cyffredin cyfredol ar gyfer SRhTDD Afon Wysg yw 31 Mawrth 2026.

### **Defnyddio dŵr yn ddarbodus a rheoli'r galw amdano**

Rydym yn annog pawb sy'n tynnu dŵr o'r newydd i ddefnyddio dŵr yn ddarbodus ac i fabwysiadu mesurau rheoli dŵr gan fod angen i ni wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau dŵr presennol. Effeithlonrwydd dŵr yw un o'r profion y bydd yn rhaid eu bodloni cyn y byddwn yn cyflwyno trwydded newydd neu'n adnewyddu trwydded cyfnod penodol. Byddwn yn hyrwyddo defnyddio dŵr yn ddoeth ac yn ddarbodus ac yn hyrwyddo camau i gyfyngu ar y galw am ddŵr (a lleihau gollyngiadau) i leihau'r twf mewn tynnu dŵr ac effaith hynny ar y llifoedd, ac unrhyw effaith ddilynol ar yr ecoleg.

## **4.2 Polisi trwyddedu dŵr wyneb**

Bydd angen i unrhyw gais am drwydded newydd neu i gynyddu trwydded bresennol gael ei ystyried mewn cyd-destun ei effaith ar ACA Afon Wysg, yn ddibynnol ar y lleoliad. Bydd trwyddedau ond yn cael eu caniatáu os gellir dangos y bydd y tynnu dŵr (gyda chyfyngiadau priodol) yn peidio â chael 'effaith andwyol' ar [gyfanrwydd safle](#) ACA Afon Wysg. Er bod isafonydd yn nalgylch Afon Wysg sydd i fyny'r afon o'r terfyn llanwol nad ydynt yn gynwysedig yn y dynodiad ACA, gallai tynnu dŵr yn yr ardaloedd hyn gael effaith ar yr ACA o hyd. Mae'r isafonydd hyn yn darparu cynefinoedd cynhaliol ac maent yn llifo i ACA Afon Wysg.

Mae'r isadrannau canlynol yn amlinellu ein polisi trwyddedu presennol yn ardaloedd canlynol SRhTDD Afon Wysg:

- 4.2.1 Dalgylch Afon Wysg i fyny'r afon o'r terfyn llanwol aberol
- 4.2.2 Dalgylch Nant Malpas
- 4.2.3 Dalgylch Nant Sor

### **Polisi trwyddedu dŵr wyneb sy'n gyffredin i'r tri dalgylch:**

- Bydd pob cais am drwydded yn cael ei ystyried ar sail achos unigol.
- Bydd gwarchod nodweddion dynodedig (e.e. ACA, SoDdGA, nodweddion CGB y DU, Ramsar), nodweddion lleol pwysig a hawliau defnyddwyr dŵr eraill yn cael eu hystyried.
- Ni fyddwn yn cyflwyno trwydded a fyddai'n achosi dirywiad yn ansawdd ecolegol corff dŵr.
- Bydd pob trwydded tynnu dŵr heb ei ddychwelyd newydd yn cynnwys cyfyngiadau ar y llif.

- Bydd lleoliad cyfeiriol priodol ar gyfer pennu'r llif lle na ellir tynnu dŵr yn cael ei nodi fel rhan o'r cais am drwydded. Ar gyfer tynnu dŵr heb ei ddychwelyd, efallai mai llif lle na ellir tynnu dŵr lleol neu'r llif cyfwerth mewn gorsaf fesur berthnasol fydd hwn. Mae sawl gorsaf fesur yn ardal SRhTDD Afon Wysg. Caiff lleoliad yr orsaf fesur ei gadarnhau pan fyddwch yn gwneud cais.
- Wrth i fwy o'r dŵr sydd 'ar gael' gael ei glustnodi ar gyfer dibenion tynnu dŵr heb ei ddychwelyd, bydd y trwyddedau y byddwn yn eu cyflwyno ag amodau cynyddol gyfyngol o ran y llif lle na ellir tynnu dŵr er mwyn sicrhau y bydd digon o ddŵr yn dal ar gael ar gyfer yr amgylchedd ac i warchod gweithrediadau tynnu dŵr presennol.
- Yn y rhan fwyaf o achosion, y terfyn amser a osodir fydd 31 Mawrth 2026. Efallai y bydd cyfnod byrrach yn cael ei bennu os byddwn o'r farn bod angen adolygu'r tynnu dŵr ynghynt er mwyn i ni allu monitro effaith y tynnu dŵr ar yr ACA a newid amodau'r drwydded os oes angen. O dan amgylchiadau eithriadol, efallai y byddwn yn caniatáu trwyddedau am gyfnodau hirach.
- Efallai y bydd yr amodau canlynol yn cael eu gosod hefyd:
  - Gosod sgriniau pysgod neu lyswennod lle mae dŵr yn cael ei dynnu gyntaf rhag iddynt gael eu llusgo neu eu taro gan y gwaith pwmpio;
  - Amodau rhag [tynnu'r swm dŵr trwyddedig mewn llai na diwrnod](#) rhag i gynefinoedd ymylol afonydd fod heb ddŵr.
- Mae yna ragdybiaeth y bydd trwyddedau cyfnod penodol yn cael eu hadnewyddu, yn amodol ar dri maen prawf adnewyddu (cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfiawnhad parhaus o'r angen, a defnyddio dŵr yn ddarbodus) ac ar ystyriaethau lleol. Fodd bynnag:
  - os yw'r llif gwirioneddol diweddar yn llai na'r DLA, efallai y byddwn yn ystyried lleihau faint o ddŵr y gellir ei dynnu fel rhan o'r broses adnewyddu,
  - os yw'r llif trwyddedig llawn yn llai na'r DLA, efallai y byddwn yn ystyried lleihau rhannau heb eu defnyddio o'r symiau a drwyddedir fel rhan o'r broses adnewyddu,
  - efallai y bydd amodau'n cael eu newid am delerau ac amodau llymach i amddiffyn yr amgylchedd, e.e. o ganlyniad i asesiad CFD,
  - efallai y bydd mân newidiadau i drwyddedau sy'n cael eu hadnewyddu, gan gynnwys amodau defnyddio dŵr yn ddarbodus, a
  - byddwn hefyd yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaw i law ynghylch adnewyddu'r drwydded.
- Byddwn yn ceisio rhoi chwe blynedd o rybudd os nad oes bwriad i adnewyddu trwydded cyfnod penodol, neu i'w hadnewyddu ar delerau mwy cyfyngol a fyddai'n amharu'n sylweddol ar y defnydd o'r drwydded.
- Wrth adolygu a diweddarau asesiadau o adnoddau'r SRhTDD ac asesiadau'r GFD, efallai y byddwn yn canfod pwysau ar adnoddau dŵr y bydd yn rhaid i ni eu hymchwilio drwy ein Rhaglen Adfer Tynnu Dŵr yn Gynaliadwy (neu rywbeth cyfatebol yn y dyfodol, os yn berthnasol).

**O ran trwyddedau tynnu dŵr at ddibenion dros dro**, lle mae'r dŵr yn cael ei ddychwelyd yn agos at y pwynt lle mae'n cael ei dynnu, does dim angen gwarchod y llif ar lefel dalgyllch ehangach. Efallai y bydd cyfyngiadau ar y trwyddedau hyn o hyd i warchod y llif rhwng lle mae dŵr yn cael ei dynnu a lle mae'n cael ei ollwng. Bydd lefel y cyfyngiadau'n dibynnu ar amodau penodol y safle. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail achos unigol.

#### 4.2.1 Dalgyllch Afon Wysg i fyny'r afon o'r terfyn llanwol yn Newbridge

Mae faint o ddŵr sydd ar gael yn gyfyngedig iawn yn y dalgyllch hwn yn dilyn canlyniad ACGC (gweler Adran 4.8).

**Ar gyfer trwyddedau dŵr wyneb newydd**, bydd y cyfyngiad canlynol ar y llif yn berthnasol:

- Ar gyfer trwydded tynnu dŵr heb ei ddychwelyd newydd, mae'r cyfyngiad llif lle na ellir tynnu dŵr presennol yn gyfwerth â hyd at 4,000 MI/d (880 mgd) yng ngorsaf fesur Trostre ar Afon Wysg. Caiff ein prif lif lle na ellir tynnu dŵr ei fesur yng ngorsaf fesur Trostre ond efallai bod gorsafoedd mesur eraill yn y dalgyllch yn fwy priodol i'w cynnwys ar drwydded, yn dibynnu lle mae'r tynnu dŵr wedi ei leoli. Bydd lleoliad y llif lle na ellir tynnu dŵr priodol yn cael ei bennu fel rhan o unrhyw gais am drwydded a bydd y llif lle na ellir tynnu dŵr a bennir yn gyfwerth â 4,000 MI/d (880 mgd) yng ngorsaf fesur Trostre.
- Ar gyfer trwydded tynnu dŵr at ddibenion dros dro, bydd y cyfyngiad llif lle na ellir tynnu dŵr perthnasol yn dibynnu ar amodau penodol i'r safle.

Ar gyfer **trwyddedau presennol**, bydd y cyfyngiad llif canlynol yn berthnasol:

- Bydd unrhyw drwydded bresennol i dynnu dŵr heb ei ddychwelyd lle mae deiliad y drwydded yn gwneud cais i gynyddu faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu yn amodol ar y 4,000 MI/d (880 mgd) yng ngorsaf fesur Trostre ar Afon Wysg ar y rhan gynyddol o'r drwydded yn unig.
- Ar gyfer trwydded tynnu dŵr at ddibenion dros dro sydd am gynyddu faint o ddŵr a dynnir dros dro, bydd y cyfyngiad llif lle na ellir tynnu dŵr perthnasol yn dibynnu ar amodau penodol i'r safle.

#### 4.2.2 Dalgyllch Nant Malpas

Mae gennym bryderon ynglŷn â faint o ddŵr sydd ar gael yn y dalgyllch hwn; mae gormod o adnoddau'n cael eu defnyddio yn y dalgyllch hwn ar hyn o bryd.

**Ar gyfer trwyddedau dŵr wyneb newydd**, bydd y cyfyngiad canlynol ar y llif yn berthnasol:

- Ar gyfer trwydded newydd i dynnu dŵr heb ei ddychwelyd, nid yw dŵr ond ar gael ar lifoedd uchel yn yr afon. Mae'r cyfyngiad llif lle na ellir tynnu dŵr presennol yn gyfwerth â 24.5 MI/d (5.4 mgd) ar bwynt asesu SRhTDD AP18.

Bydd lleoliad cyfeiriol priodol ar gyfer pennu llif lle na ellir tynnu dŵr yn cael ei nodi fel rhan o'r cais am drwydded.

- Ar gyfer trwydded tynnu dŵr at ddibenion dros dro, bydd y cyfyngiad llif lle na ellir tynnu dŵr perthnasol yn dibynnu ar amodau penodol i'r safle.

Ar gyfer **trwyddedau presennol**, bydd y cyfyngiadau llif canlynol yn berthnasol:

- Bydd unrhyw drwydded bresennol i dynnu dŵr heb ei ddychwelyd lle mae deiliad y drwydded yn gwneud cais i gynyddu faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu yn amodol ar y terfyn o 24.5 MI/d (5.4 mgd) ar bwynt asesu SRhTDD AP18 ar y rhan gynyddol o'r drwydded yn unig.
- Ar gyfer trwydded tynnu dŵr at ddibenion dros dro sydd am gynyddu faint o ddŵr a dynnir dros dro, bydd y cyfyngiad llif lle na ellir tynnu dŵr perthnasol yn dibynnu ar amodau penodol i'r safle.

### 4.2.3 Dalgylch Nant Sor

Mae dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu yn y dalgylch hwn yn ystod pob llif ar wahân i lif isel.

**Ar gyfer trwyddedau dŵr wyneb newydd**, bydd y cyfyngiad canlynol ar y llif yn berthnasol:

- Ar gyfer trwydded tynnu dŵr heb ei ddychwelyd newydd, mae'r cyfyngiad llif lle na ellir tynnu dŵr presennol yn gyfwerth â hyd at 3.7 MI/d (0.8 mgd) ar bwynt asesu SRhTDD AP1. Bydd lleoliad cyfeiriol priodol ar gyfer pennu llif lle na ellir tynnu dŵr yn cael ei nodi fel rhan o'r cais am drwydded.
- Ar gyfer trwydded tynnu dŵr at ddibenion dros dro, bydd y cyfyngiad llif lle na ellir tynnu dŵr perthnasol yn dibynnu ar amodau penodol i'r safle.

Ar gyfer **trwyddedau presennol**, bydd y cyfyngiad llif canlynol yn berthnasol:

- Bydd unrhyw drwydded bresennol i dynnu dŵr heb ei ddychwelyd lle mae deiliad y drwydded yn gwneud cais ffurfiol i gynyddu faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu yn amodol ar y terfyn o 3.7 MI/d (0.8 mgd) ar bwynt asesu SRhTDD AP1 ar y rhan gynyddol o'r drwydded yn unig.
- Ar gyfer trwydded tynnu dŵr at ddibenion dros dro sydd am gynyddu faint o ddŵr a dynnir dros dro, bydd y cyfyngiad llif lle na ellir tynnu dŵr perthnasol yn dibynnu ar amodau penodol i'r safle.

### 4.3 Polisi trwyddedu ynni dŵr

Mae dŵr sy'n cael ei dynnu ar gyfer cynlluniau ynni dŵr yn cael ei dynnu dros dro, ac mae'r cyfan ohono'n cael ei ddychwelyd i'r cwrs dŵr. Asesir ceisiadau ar sail benodol y safleoedd a hynny yn ôl risg amgylcheddol pob cynllun.



Penderfynir ar geisiadau am drwydded ynni dŵr yn unol â pholisi ynni dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru, a ddiweddarwyd yn 2014. Gellir gweld manylion y safonau a chanllawiau newydd ar y llif sydd ar gael ar dudalennu ynni dŵr [gwefan](#) Cyfoeth Naturiol Cymru.

#### 4.4 Polisi trwyddedu dŵr daear

Oherwydd nifer isel y gweithfeydd tynnu dŵr daear presennol a'r galw isel am dynnu dŵr daear o'r newydd o fewn dalgylch Afon Wysg, nid oes polisi ar wahân ar gyfer trwyddedu dŵr daear. Bydd trwyddedau ond yn cael eu caniatáu os gellir dangos y bydd y tynnu dŵr (gyda chyfyngiadau priodol) yn peidio â chael 'effaith andwyol' ar gyfanrwydd ACA Afon Wysg. Bydd trwyddedau ond yn cael eu caniatáu yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd pob cais am drwydded i dynnu dŵr daear o'r newydd neu i gynyddu faint sy'n cael ei ganiatáu gan drwydded bresennol yn cael ei benderfynu'n unigol.
- Asesir ceisiadau yn ôl eu heffaith ar safleoedd dynodedig ac ar nodweddion lleol pwysig megis safleoedd gwlypdir a chyrsiau dŵr, ac ar ddefnyddwyr dŵr daear eraill.
- Efallai y bydd cyfyngiadau llif lle na ellir tynnu dŵr neu lefel lle na ellir tynnu dŵr ar drwyddedau.
- Bydd pa fath o gyfyngiadau a osodir ar dynnu dŵr yn dibynnu ar y math o ddyfrhaen, dyfnder y tyllau turio / ffynhonnau, pa mor agos yw at gwrs dŵr wyneb, pa mor agos yw at safle dynodedig a nodweddion lleol pwysig, ansawdd y dŵr yr ymgeisir amdano, a'r diben (faint o ddŵr a fydd yn cael ei dynnu heb ei ddychwelyd).
- Efallai y rhoddir blaenoriaeth i faint o ddŵr wyneb sydd ar gael yn hytrach nag i ddŵr daear os gellir dangos bod y tynnu dŵr yn effeithio ar lif yr afon. Golyga hyn y bydd y cyfyngiadau llif lle na ellir tynnu dŵr ar gyfer dŵr wyneb, a amlinellir uchod yn adran 4.2, yn cael eu gosod. Bydd lleoliad priodol y llif lle na ellir tynnu dŵr yn cael ei benderfynu yn ôl y man y bydd tynnu dŵr daear yn cael effaith a phenderfynir ar hynny yn ystod y broses ymgeisio am drwydded.
- Ni fyddwn yn cyflwyno trwydded a fyddai'n achosi dirywiad yn ansawdd ecolegol corff dŵr.
- Lle y canfyddir bod cais tynnu dŵr daear yn cael effaith niweidiol ar lifoedd yn ACA Afon Wysg, yna bydd llif lle na ellir tynnu dŵr wyneb cyfwerth â 4,000 ml/d (880 mgd) yng ngorsaf fesur Trostre ar Afon Wysg yn cael ei ddefnyddio. Bydd lleoliad y llif lle na ellir tynnu dŵr yn cael ei benderfynu yn ôl y man y bydd tynnu dŵr wyneb yn cael effaith a phenderfynir ar hynny yn ystod y broses ymgeisio am drwydded.
- Wrth i fwy o'r dŵr sydd 'ar gael' gael ei glustnodi ar gyfer dibenion tynnu dŵr heb ei ddychwelyd, bydd y trwyddedau y byddwn yn eu cyflwyno ag amodau cynyddol gyfyngol o ran y llif lle na ellir tynnu dŵr er mwyn sicrhau y bydd digon o ddŵr yn dal ar gael ar gyfer yr amgylchedd ac i warchod gweithrediadau tynnu dŵr presennol.

- Yn y rhan fwyaf o achosion, y terfyn amser a bennir fydd 31 Mawrth 2026. Efallai y bydd cyfnod byrrach yn cael ei osod os byddwn o'r farn y dylid adolygu'r tynnu dŵr ynghynt er mwyn gallu monitro effeithiau'r tynnu dŵr ar yr ACA a newid amodau'r drwydded yn ôl yr angen. O dan amgylchiadau eithriadol, efallai y byddwn yn caniatáu trwyddedau am gyfnodau hirach.
- Mae yna ragdybiaeth y bydd **trwyddedau cyfnod penodol** yn cael eu hadnewyddu, yn amodol ar dri maen prawf adnewyddu (cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfiawnhad parhaus o'r angen, a defnyddio dŵr yn ddarbodus) ac ar ystyriaethau lleol fel cysylltedd â chysiau dŵr a safleoedd gwlypdir. Fodd bynnag:
  - efallai y bydd amodau'n cael eu newid am delerau ac amodau mwy cyfyngol i warchod yr amgylchedd, e.e. o ganlyniad i asesiad CFD,
  - efallai y bydd mân newidiadau i drwyddedau sy'n cael eu hadnewyddu, gan gynnwys amodau defnyddio dŵr yn ddarbodus,
  - byddwn hefyd yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaw i law ynghylch adnewyddu'r drwydded, ac
  - os yw cysylltedd â chwrs dŵr yn ffactor ac os yw'r llifoedd gwirioneddol diweddar wedi cwmpo'n is na'r DLA, efallai y byddwn yn ystyried lleihau faint o ddŵr y gellir ei dynnu fel rhan o'r broses adnewyddu,
  - os yw cysylltedd â chwrs dŵr yn ffactor ac os yw'r llifoedd trwyddedig llawn wedi cwmpo'n is na'r DLA, efallai y byddwn yn ystyried lleihau faint o ddŵr y gellir ei dynnu fel rhan o'r broses adnewyddu.
- Byddwn yn ceisio rhoi chwe blynedd o rybudd os nad oes bwriad i adnewyddu trwydded cyfnod penodol, neu i'w hadnewyddu ar delerau mwy cyfyngol a fyddai'n amharu'n sylweddol ar y defnydd o'r drwydded.
- Wrth adolygu a diweddarau asesiadau o adnoddau SRhTDD ac asesiadau'r GFD, efallai y byddwn yn canfod pwysau ar adnoddau dŵr y bydd yn rhaid i ni eu hymchwilio drwy ein Rhaglen Adfer Tynnu Dŵr yn Gynaliadwy (neu raglen gyfatebol yn y dyfodol, os yn berthnasol).

Bydd gofyn cael arolwg cyn ymgeisio o nodweddion dŵr a chael caniatâd i ymchwilio i ddŵr daear ac i dyllu ac arbrofi bwmpio tyllau turio / ffynhonnau. Bydd y caniatâd ymchwilio dŵr daear yn galluogi ymgeiswyr i dyllu a phrofi tyllau turio (neu ffynonellau eraill) i ganfod pa ddŵr sydd ar gael, a yw'n addas at y diben y bwriedir ei ddefnyddio, ac i asesu effaith hynny ar fuddiannau dŵr eraill cyn ymgeisio am drwydded. Dylai unrhyw un sy'n dymuno ymgeisio am ganiatâd o'r fath gysylltu â ni. Ar ôl gorffen yr arolwg nodweddion dŵr a'r profion pwmpio, bydd yn rhaid anfon y canlyniadau atom cyn cyflwyno cais llawn am drwydded. Dim ond os bydd yr arolwg nodweddion dŵr a'r data profion yn dangos bod y meini prawf uchod yn cael eu bodloni y bydd cais llawn am drwydded yn cael ei ystyried yn ffafriol.

#### 4.5 Polisi trwyddedu aberoedd / ardaloedd arfordirol

Oherwydd pwysigrwydd ecolegol a dynodiadau amgylcheddol aberoedd Afon Wysg ac Afon Hafren, mae gennym gyfrifoldeb i warchod eu hanghenion amgylcheddol, gan

gynnwys eu gofynion llif dŵr croyw. Bydd angen ystyried effaith unrhyw gais am drwydded newydd neu i gynyddu trwydded bresennol o fewn ardaloedd aberol ac arfordirol dalgylch Afon Wysg ar aberoedd Afon Wysg ac Afon Hafren.

### **Aberoedd**

Nid yw aberoedd yn cael eu cynnwys yn yr asesiad o adnoddau SRhTDD na ellir asesu dyfroedd sydd o dan ddylanwad y llanw yn yr un ffordd ag y gellir asesu dyfroedd y mewndir. Nid ystyrir fod tynnu dŵr wyneb o aber Afon Wysg yn gofyn am gymaint o warchodaeth ag sydd ei angen yn yr ardal i fyny'r afon o'r terfyn llanwol. Golyga hyn y gallai fod dŵr ar gael i'w dynnu ar amrywiaeth ehangach o lifoedd. Mae terfyn llanwol aber Afon Wysg yn Newbridge (Cyfeirnod Grid Cenedlaethol ST 38564 94729) a dangosir hyn ar Fap 1.

Bydd ceisiadau am dynnu dŵr o ddyfroedd o dan ddylanwad y llanw'n cael eu hystyried yn unigol. Bydd y gwaith o warchod dynodiadau aber Afon Wysg (ACA, SoDdGA) yn cael ei ystyried.

### **Nentydd arfordirol**

Mae nifer o nentydd arfordirol o fewn ardal y SRhTDD hon a nentydd sy'n draenio i mewn i aber Afon Wysg nad ydynt wedi cael eu hasesu yn ystod asesiad o adnoddau SRhTDD. O gymharu â'r afonydd sydd wedi'u hasesu yn ôl SRhTDD, adnodd cymharol fach yw'r nentydd llai hyn. Cynhelir asesiadau o adnoddau SRhTDD ar raddfa dalgylch mewn dalgylchoedd sydd ag adnoddau sylweddol. Mae arwynebedd dalgylchoedd nentydd arfordirol yn llai na 20km<sup>2</sup> fel arfer ac nid oes dim gwybodaeth hydrolegol nac ecolegol i gefnogi unrhyw asesiad o adnoddau.

Bydd ceisiadau i dynnu dŵr wyneb a dŵr daear o adnoddau yn y dalgylchoedd arfordirol hyn yn cael eu hystyried yn unigol.

### **Ardaloedd sy'n ddibynnol ar lefel y dŵr**

Mae gwastatiroedd isel arfordirol bach sydd wedi eu hadfer o fewn ardal SRhTDD Afon Wysg sy'n [ddibynnol ar lefel y dŵr](#), ac maent yn cael eu hadnabod gyda'i gilydd fel Gwastadeddau Cil-y-coed (Map 6). Ar y cyfan, mae Gwastadeddau Gwent yn ymestyn o'r gorllewin i'r dwyrain rhwng Caerdydd a Chas-gwent ar hyd gwastatir isel aber Afon Hafren y mae Gwastadeddau Cil-y-coed yn rhan ohono. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli'r Gwastadeddau, mewn ffordd sy'n cynnal amrywiaeth o swyddogaethau, gan gynnwys draenio tir, lleihau perygl llifogydd, amaethyddiaeth, cadwraeth a datblygu. Mae pedwar SoDdGA o fewn ardal Gwastadeddau Cil-y-coed SRhTDD Afon Wysg.

Caiff tynnu dŵr yn y Gwastadeddau ei reoli gan y gallai lleihau faint o ddŵr sydd ar gael yn y system ddŵr a reolir hon leihau'r bwrdd dŵr, gan arwain at berygl o ymsuddiad tir.


Cysylltwch â ni os ydych am dynnu dŵr o'r Gwastadeddau er mwyn i ni roi cyngor i chi ar eich cais.

#### 4.6 Polisi trwyddedu cronni dŵr

Bydd ceisiadau am drwyddedau i gronni dŵr yn cael eu hystyried yn unigol a thelir sylw i ofynion ein cyfrifoldebau statudol ynghylch safleoedd dynodedig a chyfrifoldebau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr megis sicrhau nad oes tebygolrwydd y bydd ecoleg corff dŵr yn dirywio. Cronni yw ffurfio argae, cored neu adeiladwaith arall mewn dyfrffordd fewndirol sy'n rhwystro neu'n amharu ar y llif a / neu yn codi lefel y dŵr. Mae ein hasesiadau ar gyfer ceisiadau cronni yn ystyried yr effeithiau y gallai eu cael ar yr amgylchedd (megis pysgod yn mudo), perygl llifogydd, defnyddwyr dŵr i lawr yr afon, a newid y llif. Yn unol â deddfwriaeth bresennol, nid ydym yn gosod terfyn amser ar drwyddedau cronni dŵr.

Mae'n rhaid i chi gael trwydded cronni cyn dechrau adeiladu, newid, trwsio neu dynnu strwythur cronni, hyd yn oed mewn argyfwng. Fodd bynnag, o dan rai amgylchiadau, mae trwyddedau yn cynnwys eithriadau ac, os byddwn o'r farn nad oes dim, neu fawr ddim, effaith ar yr amgylchedd nac ar ddefnyddwyr dŵr eraill, efallai na fydd angen trwydded arnoch. Cysylltwch â ni os ydych yn bwriadu adeiladu, newid, trwsio neu dynnu strwythur cronni a byddwn yn gallu eich cynghori a fydd angen trwydded arnoch ai peidio. Mae dogfen Asiantaeth yr Amgylchedd 'Low Risk Impoundment' yn amlinellu pryd y mae'n rhaid i chi ymgeisio am drwydded cronni a gellir dod o hyd iddi trwy ddilyn y ddolen 'canllawiau ar gronni o berygl isel' ar ein gwefan ar: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Gwneud cais am drwydded i dynnu neu gronni dŵr.](#)

**Map 6** Ardaloedd sy'n dibynnu ar lefel y dŵr yn SRhTDD Afon Wysg



## 4.7 Cyfleoedd i fasnachu trwyddedau

Rydym am ei gwneud yn haws i fasnachu hawliau dŵr. Masnachu hawliau dŵr yw pan fydd deiliad trwydded yn gwerthu'r cyfan neu ran o'i hawliau dŵr, yn ôl diffiniad ei drwydded(au) tynnu dŵr, i ddeiliad trwydded arall, yn barhaol neu dros dro. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd masnachu yn golygu newid y lleoliad lle mae dŵr yn cael ei dynnu a / neu yn y defnydd a bydd angen i ni gymeradwyo hynny drwy gyflwyno neu newid trwydded tynnu dŵr. Bydd ein hagwedd tuag at drwyddedu masnachu hawliau dŵr yn dibynnu ar faint o adnoddau dŵr sydd ar gael a lleoliad y prynwr a'r gwerthwr.

Wrth drwyddedu masnachu, fel gyda thrwyddedau tynnu dŵr o'r newydd, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr nad ydym yn amharu ar rywogaethau a chynefinoedd ACA dynodedig nac yn achosi dirywiad ecolegol yn statws corff dŵr Cyfarwydeb Fframwaith Dŵr naill ai o fewn y corff / cyrff dŵr lle bydd y masnachu'n digwydd neu i gyrff dŵr i lawr yr afon. Mae'r tabl isod (Tabl 3) yn rhoi arweiniad ynghylch y posibilrwydd o fasnachu yng nghyrrff dŵr ardal SRhTDD Afon Wysg yn seiliedig ar y lliw sy'n dangos faint o adnoddau dŵr sydd ar gael (Map 3 a Map 4).

<b>Lliw yn dangos faint o adnoddau dŵr sydd ar gael ar gyfer Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch</b>	<b>Ein hagwedd tuag at fasnachu yn nalgylch Afon Wysg</b>
<b>Dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu</b>	Mae masnachu'n dderbyniol.
<b>Cyfyngiad ar y dŵr sydd ar gael ar gyfer trwyddedu</b>	Efallai y bydd cyfle i ddeiliaid trwyddedau fasnachu i ddefnyddio hyd at gyfanswm symiau eu trwydded, ond efallai na fydd cymaint o ddŵr ar gael i'w fasnachu unwaith y bydd lefelau gwirioneddol tynnu dŵr yn cyrraedd terfyn cynaliadwy.  Unwaith y cyrhaeddir y terfyn hwn, dim ond y symiau gwirioneddol o ddŵr a dynnwyd yn ddiweddar y byddwn yn caniatáu i'w masnachu (h.y. ni ellir masnachu mwy o ddŵr nag sydd wedi'i dynnu'n gyfredol).
<b>Dim dŵr ar gael ar gyfer trwyddedu</b>	Dim ond y swm o ddŵr a dynnwyd yn ddiweddar y byddwn yn caniatáu ei fasnachu. Ni chaniateir mwy na'r swm gwirioneddol sydd wedi'i dynnu'n ddiweddar mewn corff dŵr.  Efallai y byddwn yn adfer dŵr sydd heb ei ddefnyddio ar gyfer yr amgylchedd fel rhan o'r masnachu.

**Tabl 3:** Y posibilrwydd o fasnachu trwyddedau yn nalgylch Afon Wysg

Bydd pob cais am fasnachu trwydded yn cael ei asesu'n ar sail achos unigol. Er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei warchod yn ddigonol a sicrhau nad yw tynnu dŵr yn amharu ar hawliau tynwyr dŵr trwyddedig eraill, bydd unrhyw newidiadau i ddefnydd, newidiadau i dynnu dŵr heb ei ddychwelyd a / neu leoliad tynnu dŵr yn amodol ar y cyfyngiadau trwyddedu a amlinellir yn Adran 4. Mater i Cyfoeth Naturiol Cymru yw penderfynu'n derfynol ar geisiadau i ganiatáu masnachu.

Am ragor o wybodaeth am fasnachu trwyddedau, ewch i wefan [www.gov.uk](http://www.gov.uk).

#### 4.8 Adfer tynnu dŵr yn gynaliadwy

Os yw dŵr sy'n cael ei dynnu ar hyn o bryd yn arwain at niweidio'r amgylchedd neu mewn perygl o achosi niwed sylweddol, efallai y bydd yn rhaid i ni newid neu hyd yn oed diddymu'r trwyddedau hynny er mwyn cael trefn gynaliadwy ar gyfer tynnu dŵr. Mae trwyddedau tynnu dŵr sy'n achosi'r problemau hyn yn cael eu hymchwilio, naill ai'n unigol a / neu ar y cyd, fel rhan o'r Rhaglen Adfer Tynnu Dŵr yn Gynaliadwy. Gallai ymchwiliadau i'r effeithiau sy'n codi o'r trwyddedau hyn arwain at ddatblygu dewisiadau gyda deiliaid trwyddedau ynglŷn â sut i wella cynaliadwyedd eu gwaith tynnu dŵr. Gellir canfod sut yr ymdrinnir â thrwyddedau yn y Rhaglen Adfer Tynnu Dŵr yn Gynaliadwy yng nghanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd, 'Changing Water Abstraction & Impoundment Licences', sydd ar gael ar wefan [www.gov.uk](http://www.gov.uk).

Mae'r Rhaglen Adfer Tynnu Dŵr yn Gynaliadwy yn gosod fframwaith ar gyfer cynnal ymchwiliadau adnoddau dŵr y GFD. Rydym wrthi'n ymchwilio i weld a yw'r gostyngiad yn llif yr afon sy'n cael ei achosi gan dynnu dŵr trwyddedig yn cyfrannu at bryderon amgylcheddol mewn cyrff dŵr o dan y GFD. Bydd dewisiadau ynghylch sut i wella cynaliadwyedd tynnu dŵr yn cynnwys dadansoddiad o gostau a manteision.

#### **Adolygiad Cysyniadau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd**

Mae'r *Gyfarwyddeb ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Ffawna a Fflora Gwyllt* (y cyfeirir ati fel y Gyfarwyddeb Cynefinoedd) yn ddarn mawr o ddeddfwriaeth Ewropeaidd sydd, ynghyd â Chyfarwyddeb yr UE ar Adar Gwyllt (1979), yn cael ei rhoi ar waith yng nghyfraith y DU drwy *Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati)* 1994 (fel y'u diwygiwyd yn 2010). Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn gofyn bod mesurau'n cael eu cymryd i gynnal neu adfer cynefinoedd naturiol a rhywogaethau gwyllt ar statws cadwraeth ffafriol.

O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, rydym wedi asesu effeithiau'r holl waith tynnu dŵr yn ardal SRhTDD Afon Wysg, trwy broses Adolygiad o Gydsyniadau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, o ran eu heffaith sylweddol tebygol ar ACA Afon Wysg, ei haber, ac ACA Aber Afon Hafren. Roedd yr asesiad yn cynnwys tynnu dŵr trwyddedig a thynnu dŵr sydd wedi ei eithrio rhag rheolaeth drwyddedu, i sicrhau bod newidiadau i dynnu dŵr trwyddedig yn gymesur i'w heffaith ar yr ACA, ble y bo angen.

Casgliad yr adolygiad oedd bod nifer fach o drwyddedau wedi eu canfod i fod yn peri risg, ar eu pennau eu hunain ac mewn cyfuniad, i gyfarwydd safle ACA Afon Wysg yn seiliedig ar faint o ddŵr yr awdurdodir i gael ei dynnu a'r manau nad yw'n cael eu sgrinio lle mae dŵr yn cael ei dynnu. Mae angen addasu'r trwyddedau hyn i ddileu'r risgiau hyn ac adfer llif yn yr afon. Rydym yn gweithio gyda deiliad y drwydded i addasu

ei drwyddedau. Pan fyddwn yn adfer dŵr o drwydded bresennol, caiff y dŵr hwnnw ei warchod ar gyfer yr amgylchedd ac nid yw ar gael ar gyfer ei drwyddedu yn y dyfodol.

#### 4.9 Dileu gweithgareddau wedi'u heithrio

Gwnaeth Deddf Dŵr 2003 rywfaint o newidiadau i'r ffordd y mae angen i ni reoli tynnu a chronni dŵr. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys dileu eithriadau presennol ar gyfer gweithgareddau penodol (y cyfeirir atynt fel 'Awdurdodiadau Newydd'), a dod â nhw i mewn i'r system trwyddedu tynnu dŵr. Bydd yr eithriadau a fydd yn cael eu dileu fel a ganlyn:

- pob math o ddyfrio (ar wahân i ddyfrio chwistrellu, sydd eisoes yn destun trwydded) a'r defnydd o systemau draenio tir yn groes er mwyn cynnal lefelau dŵr caeau
- dyddodi (tynnu dŵr sy'n cynnwys silt i'w ddefnyddio fel gwrtaiith)
- dad-ddyfrio mwyngloddiau, chwareli a gwaith peirianeg
- tynnu dŵr i mewn i Ardaloedd Draenio Mewnol
- trosglwyddo dŵr gan awdurdodau mordwyo, porthladd a harbwr
- tynnu dŵr mewn ardaloedd sydd wedi'u heithrio'n ddaearyddol ar hyn o bryd
- y rhan fwyaf o dynnu dŵr sy'n rhan o eithriadau'r Goron a lluoedd ar ymweliad

Bydd y newidiadau hyn yn ein galluogi i reoli adnoddau dŵr yn fwy effeithiol trwy sicrhau bod pob gweithgaredd arwyddocaol sy'n dylanwadu ar faint o ddŵr sydd ar gael a'i effaith ar yr amgylchedd yn cael ei gynnal yn gynaliadwy.

Nid yw'r gwaith o roi'r ddeddfwriaeth hon ar waith wedi dechrau eto ac mae'r llywodraeth yn dal i ddatblygu ei pholisïau o ran sut i ddatrys rhai o'r problemau a godwyd yn ystod y broses ymgynghori. Bydd y llywodraeth yn cyhoeddi ei chynigion cyn rhoi rheoliadau newydd ar waith a disgwylir i hyn gael ei wneud oddeutu dau fis cyn dechrau er mwyn i ni allu cyhoeddi canllawiau i'r rhai y mae'r newidiadau'n effeithio arnynt.

Anogir tynwyr dŵr sydd wedi'u heithrio rhag trwydded ar hyn o bryd i gadw cofnodion o'r dŵr a dynnir er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfiawnhau faint o ddŵr maent am ei dynnu pan ddilëir yr eithriadau a phan gaiff y gwaith tynnu dŵr hwn ei ddwyn i mewn i'r drefn drwyddedu.

Os oes gennym wybodaeth am y gwaith tynnu dŵr sydd wedi ei eithrio, rydym wedi ei chynnwys yn ein hasesiadau o adnoddau dŵr i ystyried sut mae'n effeithio ar lifoedd a lefelau dŵr daear yn y dalgylch, ac i benderfynu faint o adnoddau dŵr sydd ar gael i'w trwyddedu.

#### **Tynnu dŵr wedi'i eithrio yn nalgylch Afon Wysg**

Mae ychydig o ddibenion sydd wedi eu heithrio rhag trwydded yn nalgylch Afon Wysg. Y prif waith tynnu dŵr yw Glandŵr Cymru, sy'n tynnu o gyrsiau dŵr wyneb i gyflenwi Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog.

Yn ogystal, mae ardaloedd sydd wedi'u heithrio'n ddaearyddol o fewn dalgylch SRhTDD Afon Wysg. Mae manylion yr ardaloedd hyn sydd wedi'u heithrio yng Ngorchymyn Awdurdod Afon Wysg (Eithriadau rhag Rheoli) 1973 ac maent o fewn



ardal Aberhonddu. Ar hyn o bryd, nid oes angen trwydded ar gyfer tynnu dŵr o ddyfroedd mewndir yn yr ardal hon, sy'n las ar fapiau'r Gorchymyn. Bydd hyn yn newid pan fydd rheoli trwyddedig yn dechrau dan Ddeddf Dŵr 2003.

#### **4.10 Newidiadau i'r system drwyddedu bresennol yn y dyfodol**

Yn dilyn ymgynghoriad ffurfiol ar y cyd â DEFRA yn 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad, sy'n amlinellu cynlluniau ar gyfer cyflwyno system ddiwygiedig ar gyfer tynnu dŵr yng Nghymru yn gynnar yn y 2020au. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad yn amlinellu sut bydd y system newydd yn cydbwysu anghenion gwahanol ddefnyddwyr dŵr a'r amgylchedd yn wyneb pwysau gan newid hinsawdd a galw cynyddol am ddŵr. Mae rhagor o wybodaeth ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru a thrwy ddilyn dolenni at wefan DEFRA.

## Rhestr Termau

Ardaloedd sy'n dibynnu ar lefel y dŵr	Porfeydd gwlyb, arfordirol isel (dan lefel y môr yn aml) wedi'u hadfer, lle caiff lefel y dŵr ei rheoli'n ofalus trwy gydol y flwyddyn i atal llifogydd trwy ddefnyddio system o ffosydd draenio.
Corff dŵr	Uned sylfaenol rheoli dŵr wyneb ar gyfer cwblhau asesiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n cynnwys y cyfan (neu ran) o nant, afon neu gamlas, llyn neu gronfa ddŵr, ac aber neu lain o ddŵr arfordirol hyd at un filltir forol oddi ar y lan. Gellir dosbarthu cyrff dŵr wedi'u newid gan weithgareddau dynol fel cyrff dŵr wedi'u newid llawer neu fel cyrff dŵr artiffisial. Corff dŵr daear yw swm penodol o ddŵr o dan y ddaear mewn un neu fwy o ddyfrhaenau.
Cronni dŵr	Strwythur cronni yw un sy'n rhwystro neu'n atal llif dŵr yn y mewndir, megis argae, cored neu adeiladwaith arall.
Cyfanrwydd safle	Caiff ei ddiffinio fel cysondeb o ran ei strwythur a swyddogaeth ecolegol, ar draws ei ardal gyfan, neu'r hyn sy'n ei alluogi i gynnal y cynefinoedd a / neu boblogaethau o rywogaethau y cafodd y safle ei ddynodi ar eu cyfer.
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth	Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU ym 1994, mewn ymateb i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, y daeth y DU yn rhan ohono ym 1992. Roedd Cynllun Bioamrywiaeth y DU yn disgrifio adnoddau biolegol y DU ac yn cynnwys cynlluniau manwl ar gyfer cadwraeth yr adnoddau hyn. Y rhywogaethau a'r cynefinoedd oedd yn cael blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU oedd y rhai a nodwyd fel y rhai mwyaf mewn perygl ac a oedd angen camau gweithredu i'w cadw. Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU wedi'i ddisodli. Erbyn hyn, mae llawer o rywogaethau a chynefinoedd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU yn cael eu cydnabod yn 'rhywogaethau a chynefinoedd o brif bwysigrwydd' dan Adrannau 41 a 42 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Yn y DU, rydym yn gweithio yn unol â 'Fframwaith Bioamrywiaeth y DU ar ôl 2010' (Gorffennaf 2012).
Cynllun Rheoli Basn Afon	Mae Cynllun Rheoli Basn Afon yn amlinellu mesurau i wella'r dŵr mewn afonydd, aberoedd, arfordiroedd a dyfrhaenau. Cânt eu llunio ar gyfer gwahanol ardaloedd basn afon dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a cânt eu hadolygu a'u diweddarau bob chwe blynedd. Mae'r cynlluniau wedi cael eu datblygu trwy ymgynghoriadau gyda sefydliadau ac unigolion. Maent yn cynnwys prif broblemau'r amgylchedd dŵr a gwybodaeth ynghylch yr hyn y mae angen i bob un ohonom ei wneud i fynd i'r afael â'r problemau hyn.
Dangosydd llif amgylcheddol	Mae cyfran o'r llif naturiol mewn afon yn cael ei neilltuo ar gyfer iechyd ecolegol y cwrs dŵr. Gelwir hyn y dangosydd llif amgylcheddol ac rydym yn ei ddefnyddio i rwystro dirywiad ecolegol mewn afonydd. Mae'n cael ei bennu yn unol â safonau Grŵp Cynghori Technegol y DU.

Dalgylch	Ardal benodol o rwydwaith afon lle bydd dyodiad (e.e. glawiad) a dŵr daear yn casglu ac yn cyfrannu at y llif yn y rhwydwaith hwnnw.
Dŵr daear	Dŵr sydd mewn creigiau tanddaearol neu ddyddodion arwynebol.
Dŵr wyneb	Term cyffredinol a ddefnyddir i ddisgrifio pob nodwedd dŵr megis afonydd, nentydd, ffynhonnau, pyllau a llynnoedd.
Dyfrhaen	Ffuriant daearegol, grŵp o ffurfiannau neu ran o ffuriant sy'n gallu storio a throsglwyddo llawer iawn o ddŵr.
Fflachiog	Cwrs dŵr sy'n dangos cynnydd arwyddocaol yn y llif yn union ar ôl cyfnod o law ac yn dychwelyd yn gyflym i'w gyflwr cyn y glaw ar ôl iddo ddarfod, a lle mae'r llif yn isel iawn ar ôl cyfnodau sych.
Gollwng	Gollwng sylweddau (h.y. dŵr, carthffosiaeth ac ati) i ddyfroedd wyneb.
Lefel lle na ellir tynnu dŵr	Lefel llif afon neu dwll turio (dŵr daear) y bydd gofyn lleihau neu atal tynnu dŵr os bydd y llif yn is na hynny.
Llif lle na ellir tynnu dŵr	Amod ar drwyddedau tynnu dŵr sy'n datgan, os bydd llif (mewn afon) yn is na'r lefel a nodir ar y drwydded, y bydd yn rhaid i'r tynnwr dŵr leihau neu atal tynnu dŵr yn gyfan gwbl.
Llif naturiol	Mewn asesiadau hydrolegol, mae hyn yn cyfeirio at lif mewn cyrsiau dŵr nad oes unrhyw weithgaredd dynol wedi effeithio arno, megis tynnu a gollwng dŵr. Prin iawn yw'r cyrsiau dŵr sy'n hollol naturiol gan fod gweithgareddau dynol anuniongyrchol yn effeithio ar y rhan fwyaf o ddalgylchoedd, gan gynnwys newid y sianeli, newid y defnydd o dir, a threfoli. Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn diffinio cyrsiau dŵr gyda llif naturiol (neu bron yn hollol naturiol) perffaith fel rhai sydd â threfn hydrolegol uchel.
Llif sylfaenol	Y llif sy'n mynd i gyrsiau dŵr wyneb o ddŵr daear, h.y. lefel cyfraniad y dŵr daear at lif nentydd mewn dalgylchoedd.
Pwynt asesu	Pwynt ar gwrs dŵr lle mae'r llif o'r dalgylch i fyny'r afon yn cael ei asesu.
Q95	Llif yr afon sydd ar yr un lefel neu'n fwy na'r cyfartaledd am 95% o'r amser. Felly Qx yw x% o'r amser.
Trefn llif	Patrwm ystadegol cyfradd llif afon (dyddiol cymedrig) sy'n amrywio'n gyson.
Trwydded tynnu dŵr	Hawl a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ganiatáu tynnu dŵr.
Tynnu dŵr	Tynnu dŵr o ffynhonnell gyflenwi (dŵr wyneb neu ddŵr daear)
Tynnu dŵr at ddibenion dros dro	Tynnu dŵr pan fo'r cyfan o'r dŵr yn cael ei ddychwelyd i le y'i tynnwyd ychydig i lawr yr afon o'r pwynt tynnu. Er enghraifft, ystyrir fod tynnu dŵr ar gyfer ffermydd pysgod a chynlluniau ynni dŵr yn 'dynnu dŵr at ddibenion dros dro'.
Tynnu dŵr heb ei ddychwelyd	Tynnu dŵr lle nad yw cyfran sylweddol o'r dŵr a dynnir yn cael ei ddychwelyd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i'r

	ffynhonnell gyflenwi ar ôl iddo gael ei ddefnyddio. Er enghraifft, dyfrio drwy chwistrellu.
Tynnu'r swm dŵr trwyddedig mewn llai na diwrnod	Tynnu'r swm dŵr dyddiol sydd wedi'i drwyddedu mewn cyfnod o lai na phedair awr ar hugain.

## Rhestr o fyrfoddau

ACA	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
ACGC	Adolygiad Cydsyniadau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd
AGA	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig
CGB	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
CRhBA	Cynllun Rheoli Basn Afon
DLA	Dangosydd Llif Amgylcheddol
GFD	Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
MI/d	Megalitr y diwrnod
mgd	Miliwn galwyn y diwrnod
SoDdGA	Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SRhTDD	Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch